LEG-19-2002(min)

**CYFARFOD Y PWYLLGOR DEDDFAU**

**COFNODION:**

**Dyddiad:** 16 Gorffennaf 2002

**Amser:** 9:30 a.m.

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 1, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presennol:**

| | |
|---|---|
| Mick Bates | (Democrat Rhyddfrydol) |
| Ron Davies | (Llafur) |
| Janice Gregory | (Llafur) |
| Dr Dai Lloyd | (Plaid Cymru) |
| Val Lloyd | (Llafur) |
| Gwenda Thomas | (Llafur) |
| Owen John Thomas | (Plaid Cymru) |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| John Turnbull | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Huw Davies | Ymgynghorydd Cyfreithiol |
| Olga Lewis | Clerc y Pwyllgor |
| Simon Thwaite | Dirprwy Glerc y Pwyllgor |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**: Glyn Davies

**Eitem 1: Cofnodion y cyfarfod diwethaf a materion sy’n codi: LEG-18-2002 (min)**

1.1 Cytunodd y Pwyllgor ar gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Gorffennaf 2002.

**Eitem 2: Adroddiad y Cadeirydd**

2.1 Atgoffodd y Cadeirydd yr Aelodau eu bod wedi mynegi pryder ynghylch y nifer o wallau teipograffyddol mewn gorchmynion a osodwyd yng nghyfarfod diwethaf y Pwyllgor Deddfau. Codwyd cwestiwn cyffredinol yngl◊n â’r weithdrefn ar gyfer drafftio offerynnau statudol. Awgrymodd y Cadeirydd y gallai Aelodau’r Pwyllgor elwa o ymweliad arall â Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol i werthfawrogi’r broses o ddrafftio deddfwriaeth. Dywedodd y Cadeirydd y byddai’r ymweliad hwn yn digwydd yn ystod y tymor newydd yn Hydref 2002.

**Eitem 3: Gorchmynion y Cynulliad i’w Hystyried**

**LC524 – Gorchymyn Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 (Cychwyn Rhif 3) (Cymru) 2002**

3.1 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwneir y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Gyflym.

3.2 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Gorchymyn ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid ei gofnodi yn ei adroddiad.

3.3 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Gorchymyn fel LC524 (Adroddiad).

**LC525 – Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2002**

3.4 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.5 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.6 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC525 (Adroddiad).

3.7 Nodwyd bod yr Atodlenni i'r Rheoliadau hyn heb eu dosbarthu eto. **Gweithredu: Clerc/Dirprwy Glerc**

**LC526 – Rheoliadau Bwyd (Ffigys, Cnau Cyll a Chnau Pistachio o Dwrci) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.8 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.9 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor dri sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.10 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC526 (Adroddiad).

**LC527 – Rheoliadau Bwyd (Cnau Daear o Tseina) (Rheolaeth Frys) (Diwygio) (Cymru) 2002**

3.11 Cyflwynodd Mr Turnbull yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.12 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5. Fodd bynnag, gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cofnodi yn ei adroddiad.

3.13 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC527 (Adroddiad).

**LC528 – Rheoliadau Tir Mynydd (Cymru) (Diwygio) 2002**

3.14 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Rheoliadau o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.15 Yn Rheoliad 4 ac 18 dylai "Atodlen 1" ddarllen fel "yr Atodlen".

3.16 Cytunwyd y gellir cywiro'r mân wall drafftio hwn yn y fersiwn gyhoeddedig. Byddai adroddiad y Pwyllgor yn gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r pwynt drafftio hwn.

3.17 Gwnaeth y Pwyllgor ddau sylw cyffredinol yr oedd o'r farn y dylid eu cynnwys yn ei adroddiad.

3.18 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC528 (Adroddiad).

**LC529 – Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Nwyddau a Gwasanaethau) (Cyrff Cyhoeddus) (Cymru) 2002**

3.19 Cyflwynodd Mr Davies yr adroddiad i'r Pwyllgor. Gwnaethpwyd y Gorchymyn o dan y Weithdrefn Weithredol.

3.20 Cytunodd y Pwyllgor nad oedd angen iddo wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r rheoliadau ar unrhyw sail a nodir yn Rheol Sefydlog 11.5 ac nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau cyffredinol ychwaith.

3.21 Atodir adroddiad y Pwyllgor i'r Cynulliad ar y Rheoliadau fel LC529 (Adroddiad).

**Eitem 4: Unrhyw Fater Arall a Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**

4.1 Llongyfarchodd y Pwyllgor Ron Davies AC, ar gyhoeddiad diweddar ei briodas.

4.2 Cynhelir y cyfarfod nesaf ar 15 Hydref 2002.